WG35. 5.79

# MARWNAD

I'R DIWEDDAR

## THOMAS HUMPHREYS,

Penlon Esger, Llandyssul,

GAN

## REES REES (ISFRYN),

PENCADER.

Buddugol yn Nghyfarfod Cystadleuol Hen Gapel y Llwyn, Chwefror y 26ain, 1896.

LLANDYSSUL:

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GOMERIAN PRESS.

MDCCCXCVI.

XL05 3 10167

# MARWNAD.

HAWDD yw wylo a galaru
   Pan yn gwel'd pererin gwyn
Mewn tangnefedd yn diflanu
   Obry'n niwloedd còll y glyn;
Ac er i flynyddau lithro,—
   Lithro i'r gorphenol prudd,
Y mae'r hiraeth fyth am dano,
Fyth yn ocheneidiau effro,
   Fyth yn ddagrau ar fy ngrudd.

Chwery'r Awen bur yn nwyfus,
   Fel yr awel, uwch ei fedd,
Dan suganu'n ddistaw felus
   Gŵynion mewn galarus hedd;
Ysgafn ddisgyn ar y llwybrau
   A dramwyodd yn y byd
A wna weithiau mewn sandalau
Aur, i chwareu rhwng y blodau
   A'u haddurnant hwy i gyd.

THOMAS HUMPHREYS, PENLON ESGER,
   [illegible] ol pwy na rydd lef?
Y mae rhyw anwyldeb tyner
   Fyth yn nglŷn a'i hanes ef;
Prin ei enwi sydd yn ddigon
   I adfywio tannau gwyw
Hiraeth obry yn y galon,
Ac i ddeffro i'w gwaelodion
   Alar gwynion Awen fyw.

W. 5121

Suo tristwch blin i huno
A dyddanu'r fron fu'n dryllio
Ydoedd elfen fawr ei bri.

Thomas Humphreys : ni bu crefftwr
Mwy deheuig is y nef,
Holl wehyddion Dyffryn Clettwr
A ymgryment iddo ef;
Ei fedrusrwydd gyda'r wenol
Ddygodd iddo glodydd cun,
Ac a wnaeth i lu anwydol
Mewn cynhesrwydd pur i siriol
Wenu ar y gauaf blin.

Nid yw telyn ein hadgofion
Fyth yn ddystaw, fyth yn fud,
Tyner seinio ei nodweddion
A fyn hi o hyd, o hyd :
Gwrando ar ei hodlau melus
O dan lwyni prudd y glyn
Sy'n gwefreiddio'r aidd flinderus,
Sy'n tynhau'r anwyldeb hapus
Rhyngom fu o hyd mor dŷn.

Hen gymeriad llawn hynodion,
Gwreiddiol ydoedd—"fel ei hun,"
Nid ymhonai mewn nodweddion
Oedd yn eiddo arall un ;
Estron oedd i'r elfen hono
Sy'n bychanu ambell gawr
Drwy ei yru i gofleidio
Y nodweddion fu yn eiddo,
Fu yn addurn rhywun mawr.

Pwy a'i maeddai mewn ffraethineb,
  Y ffraethineb hwnw sydd
Megis dylif o sirioldeb
  Yn adloni calon brudd?
"Crwth a thelyn" pob cyfarfod
  Ydoedd THOMAS HUMPHREYS fawr,
Gyda'i ddigrif Awen barod
Yn dylifo o ysmaldod
  Pur, dihalog fel y wawr.

Meddai ysbryd penderfynol
  A disyfl hyd y carn,
Fyth yn gryf ac annibynol,
  Fyth yn sicr yn ei farn;
Nid rhyw gorsen ddistadl, ysig,
  Dry yr awel fel y myn,
Ond rhyw dderwen gref, uchelfrig
Dry y corwynt yn siomedig
  I gwynfanu yn y glyn.

Nid oedd lloches i ddichellion
  Yn ei ysbryd, yn ei wedd,
Nid oedd congl yn ei ddwyfron
  I fradwriaeth guddio'i gledd;
Unplyg, gonest, cydwybodol,
  Didwyll, egwyddorol gawr,
Rhagddo ffoai y rhagrithiol
Fel y nôs rhag gwenau hudol
  Emrynt y blygeiniol wawr.

Ar ei aelwyd fyth yn serchog,
  Fyth yn siriol, fyth yn llon,
Caffai estron a chymydog
  Yma deimlo gwres ei fron;

Er i rengau'r hen lancyddion
  Gaffael ynddo aelod taer,
Ni fu pall ar ei gysuron—
Cafodd ef ymgeledd ffyddlon,
  Bur a thyner yn ei chwaer.

Pwy erioed yn Nyffryn Clettwr
  Fu yn uwch ar fryniau parch,
Fu yn ngolwg ei edmygwr
  Mor ddilychwin hyd ei arch?
Fel blodeuyn gwyn yn gwenu
  Gan ddwyfoli gwedd y llwyn,
A'i dlysineb yn dadebru
Pawb i'w garu a'i edmygu
  Ydoedd THOMAS HUMPHREYS fwyn.

Yn wleidyddwr goleuedig,
  Yn anrhydedd fyth i'r sedd,
Dros iawnderau'r blaid Ryddfrydig
  Y dadleuodd hyd ei fedd;
Trais a gormes cymdeithasol,
  Llyffetheiriau hawliau dyn,
Mewn brwdfrydig aidd ddyngarol,
A ddynoethodd yn egniol,
  Yn mhob ffurf ac yn mhob llun.

Yn Undodwr egwyddorol,
  A'i ddaliadau yn ddilen,
Ond yn iach o'r culni sectol
  Sydd yn duo Cymru Wen;
Cristion gloyw ei gymeriad,
  Gloyw, gloyw fel y wawr,—
Ei ddilychwin, gywir rodiad
Yn anrhydedd fyth i'r enwad
  Oedd mor hoff i'w enaid mawr.

Diarebol ei ffyddlondeb
  Gyda'r "brodyr yn y Llwyn,"
Iddynt 'roedd ei bresenoldeb
  Fel yn llawn eneiniol swyn ;
Byth ni fedrai bâr gauafol
  Na chynddaredd 'storom gref,
Mwy na gwenau hafddydd swynol,
Godi rhwystrau anorchfygol
  I'w ffyddlondeb selog ef.

Treuliodd oes heddychol, weithgar,
  Oes o ddefnyddioldeb byw,
Fyth yn ddiwyd ac ymroddgar
  Dros ei ardal, dros ei Dduw ;
A phan ydoedd yn dynesu
  At ymylon prudd y glyn,
Gyda'i arfau wedi rhydu,
Nid oedd dim a feiddiai lethu
  Ysbryd ei weithgarwch gwyn.

Rhodiodd lan yr hen Iorddonen
  Mewn tagnefedd swynol brudd,
Ac aeth drwyddi, drwyddi'n llawen
  Gyda gwenau ar ei rudd ;—
Yn tywynu dros ei thònau
  Y canfyddai fyd o hedd
Yn ei gymell i'w ororau,
Lle na feiddiai anadl angau
  Godi'n gwmwl uwch ei wedd.

Ardal gyfan gaed yn wylo,
  Gaed yn ocheneidio'n flin,
Wrth ei hebrwng i noswylio,—
  I noswylio'i olaf hûn ;

Nid oes angen maen na mynor
I ddynodi màn ei fedd,
Adgof o'i anwyldeb didor
Geidw'i goffa fyth yn drysor
Na fyn anghof guddio'i wedd.

Ffarwel, bellach, HUMPHREYS anwyl,—
Ti ehedaist hwnt i'r llen
I gymdeithas gwynion engyl
Aur orielau Gwynfa Wen,
Hwnt o gyrhaedd byd trallodus
A'i helbulon,—gwyn dy fyd,
Lle cei dreulio'n hapus, hapus,
Mewn gwynfydedd gorfoleddus,
Dragwyddoldeb ar ei hyd.

"ADLAIS HIRAETH."

J. D. LEWIS, GOMERIAN PRESS, LLANDYSSUL.